hawdd i’w ddarllen




# Canllaw i’ch Hawliau Chi dan Orchmynion Amddifadu o Ryddid Cymunedol

Gwasanaeth Anabledd Integredig Conwy

**Am beth mae’r daflen yma’n sôn**

Mae barnwr wedi dweud bod angen Gorchymyn Amddifadu o Ryddid Cymunedol arnoch chi. Mae’r llyfryn yma’n eich helpu i ddeall eich hawliau rŵan bod y Gorchymyn wedi ei roi.

Efallai y byddech chi’n hoffi cael rhywun i’ch helpu chi pan fyddwch chi’n edrych ar y llyfryn yma.

This document is also available in English.



Pob Delwedd, ar wahân i logo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hawlfraint © LYPFT

rhyddid



Mae Gorchymyn Amddifadu o **Ryddid** Cymunedol yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i chi.

Mae **Rhyddid** yn golygu gallu penderfynu beth ydych chi eisiau ei wneud a lle ydych chi eisiau byw.

dim rhyddid



Mae'n bosibl na fydd gennych chi gymaint o ryddid â phobl eraill. Mae hyn oherwydd eich bod yn ei chael yn anodd gwneud penderfyniadau am le i fyw a pha ofal ydych ei angen.
Gelwir hyn yn ddiffyg galluedd.

lles pennaf




Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i bobl eraill eich helpu chi oherwydd nad ydych chi'n gallu gwneud y penderfyniadau hyn.


galluedd meddyliol



Mae Doctor ac **Asesydd Lles Pennaf** wedi cyfarfod gyda chi ac maen nhw'n meddwl bod angen i bobl eraill benderfynu lle ydych chi'n byw a pha fath o ofal ydych chi ei angen.

Mae **Asesydd Lles Pennaf** yn berson sydd wedi cael hyfforddiant arbennig i benderfynu a yw gofal ar gyfer person yn iawn iddyn nhw.

siarad gyda phobl eraill



Maen nhw wedi siarad gyda phobl sy'n eich adnabod chi'n dda. Maen nhw hefyd wedi edrych ar wybodaeth amdanoch chi a'r math o help ydych chi ei angen.


gofynion y llys




Maen nhw wedi ysgrifennu adroddiad i'r Barnwr yn y Llys Gwarchod edrych arno. Ac mae'r Barnwr wedi cytuno mai'r peth gorau i chi ydi byw yn eich cartref a chael y gofal sydd ei angen arnoch.




Pob Delwedd, ar wahân i logo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hawlfraint © LYPFT




Mae'r Barnwr wedi gwneud Gorchymyn Amddifadu o Ryddid Cymunedol. Bydd hwn yn para am hyd at flwyddyn. Ar ôl hyn, neu os bydd pethau'n newid, byddwn yn edrych ar bopeth eto.

Mae'r Gorchymyn yma yn rhoi **HAWLIAU** cyfreithiol i chi.





Eich **hawl** i gael cynrychiolydd:
Bydd rhywun yno i'ch helpu chi. Byddan nhw'n dod i'ch gweld chi ac yn gallu dweud wrthym os nad ydych chi'n hapus am le ydych chi'n byw neu'r rheolau yn eich cynllun gofal.
Byddan nhw'n rhannu eich barn, hyd yn oed os ydyn nhw'n anghytuno.





Eich **hawl** i ofyn am adolygiad:
Gallwch ofyn i ni edrych ar bethau eto os nad ydych chi'n hapus am:

- Lle ydych chi'n byw
- Sut ydych chi'n cael gofal
- Y rheolau mae angen i chi eu dilyn
- Rydych chi'n meddwl eich bod yn gallu gwneud penderfyniadau eich hunain

Gallwch wneud hyn eich hun neu ofyn i rywun wneud hyn ar eich rhan.




Eich **hawl** i herio:
Gallwch ddweud wrth y Llys Gwarchod os ydych chi'n anghytuno gyda'r Gorchymyn.
Does dim angen caniatâd arnoch i gysylltu â'r llys, ond mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl ei bod yn haws gofyn i'w cynrychiolydd gysylltu â ni er mwyn i ni ddangos i chi beth i'w wneud.




Eich **hawl** i eiriolaeth:
Rhywun nad yw'n rhan o'ch tîm gofal ydi eiriolwr. Maen nhw'n eich helpu chi i ddeall eich hawliau, dweud beth ydych chi'n ei feddwl a'ch helpu i anghytuno â phenderfyniadau os ydych chi eisiau gwneud hynny.
Os fyddech chi'n hoffi cael eiriolwr, cysylltwch â ni, neu gofynnwch i rywun wneud hyn i chi.



Pob Delwedd, ar wahân i logo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hawlfraint © LYPFT

# Cysylltwch â Ni

Gallwch siarad â'r Asesydd Lles Pennaf os oes gennych chi unrhyw gwestiynau. Gallwch gysylltu â nhw trwy:

**cysylltu**



E-bost: gweinydduanableddau@conwy.gov.uk

Rhif ffôn: 01492 575374

**llys**



Gallwch gysylltu â'r Llys Gwarchod yn uniongyrchol:

E-bost: courtofprotectionenquiries@justice.gov.uk

Rhif ffôn: 0300 456 4600



Pob Delwedd, ar wahân i logo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hawlfraint © LYPFT